

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

COFNODION Y CYNGOR YSGOL

Hydref 26^{ain}, 2012

Presennol

*Mrs Williams, Miss Llwyd,
Robert Gorman, Gwenllian Thomas,
Sara Fflur Griffiths, Dylan Skym,
Sara ap Robert John, Rhianedd Owen,
Elen Llywelyn Evans, Dylan James-Williams.*

Absennol

Llŷr Eirug, Erin Davies

Agorodd Robert Gorman y Cadeirydd y cyfarfod am 9.15yb, gan ddiolch i bawb am ddod.

Agenda

1. Trafod a dewis logo swyddogol i'r Cyngor Ysgol

Gan fod holl blant CA2 wedi cael cyfle i ddylunio logo newydd ar gyfer y Cyngor Ysgol yn gynharach yr wythnos hon, aethom ati i edrych drwy'r holl gynlluniau a dewis y cynllun mwyaf addas. Penderfynwyd y dylai'r logo fod yn gyfuniad o ddau gynllun – un Gwen Down o Flwyddyn 4 a Seren Griffith o Flwyddyn 6. Bydd logo swyddogol yn cael ei greu cyn hir.

2. Casgliad Hillcrest

Fe drafodwyd y ffaith fod disgyblion yr ysgol wedi bod yn dod â chyfraniadau tuag at ein casgliad dyngarol eleni, sef elusen Hillcrest. Penderfynwyd y byddai cyfle iddynt barhau i ddod â chyfraniadau am yr wythnos ar ôl y gwyliau hanner tymor. Bydd aelodau Blwyddyn 6 o'r Cyngor Ysgol wedyn yn cyflwyno'r sic derfynol i Mrs Heather Pitcher yn y Gwasanaeth ar ddechrau mis Tachwedd.

3. Diwrnod Plant Mewn Angen

Trafodwyd syniadau ar gyfer codi arian ar ddiwrnod Plant Mewn Angen a fydd yn cael ei gynnal ar ddydd Gwener, Tachwedd 16^{eg}. Bydd cyfle i bawb wisgo i fyny unwaith eto eleni, gan dalu £1 am wneud, a bydd Blwyddyn 6 yn gyfrifol am baratoi gêmâu a stondin gacennau yn y neuadd. Bydd angen i bob aelod o'r Cyngor Ysgol baratoi posteri er mwyn eu harddangos yn eu dosbarthiadau yn atgoffa pawb o drefniadau'r diwrnod, a bydd angen anfon llythyr allan hefyd yn atgoffa plant i ddod â £1 yn ogystal â digon o arian mân ar gyfer y gêmâu a'r cacennau.

4. Materion i'w trafod gyda Mr Williams

Buom yn rhestru materion eraill yr hoffem eu trafod gyda Mr Williams cyn y cyfarfod nesaf:

- Annog disgyblion i ddod â hen ffonau symudol i'r ysgol er mwyn eu cyfnewid am arian;
- Creu amserlen ar gyfer defnyddio'r cwrs antur ac ar gyfer chwarae pêl-droed ar y cyrtiau amser chwarae;
- Mwy o finiau sbwriel ar y cae;
- Tacluso'r ardd natur dros y gaeaf;
- Tap dŵr arall ar yr iard;
- Atgoffa plant CA2 yn ystod Gwasanaeth am Flwch Syniadau y Cyngor Ysgol ger y brif fynedfa.

5. Edrych trwy awgrymiadau'r Blwch Syniadau

Edrychom trwy'r awgrymiadau a gyflwynwyd i'r Blwch Syniadau ers y cyfarfod diwethaf. Byddwn yn eu trafod yn y cyfarfod nesaf.

Robert y Cadeirydd yn cloi'r cyfarfod am 9.50yb gan ddiolch i bawb am ddod.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 30^{ain} o Dachwedd 2012

Cofnodion gan Sara Fflur a Gwenllian (Ysgrifenyddes ac Is Gadeiryddes)